# Disgrifiad Swydd

**CYFARWYDDIAETH:** Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

**ARAN:** Atal a Llesiant

**SWYDD:** Hyfforddwr

**GRADD Y SWYDD:** Gradd 6

**YN ATEBOL I:** Rheolwr Llesiant yn y Gwasanaeth

---

**DIBEN Y SWYDD:**

Arwain y gwaith o ddarparu gweithgareddau ar draws y gwasanaeth atal a llesiant. Gweithio gydag amrywiaeth eang o gyfranogwyr sydd â gwahanol anghenion mewn un gwahanol fathau o amgylchedd. Sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu gweithredu yn unol â'r safonau a systemau gwaith a argymhellir.

---

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Arwain wrth baratoi, darparu, gwerthuso parhaus ac adolygu sesiynau chwaraeon a/neu weithgareddau corfforol.
- Paratoi ar gyfer gweithgareddau hyfforddi cynhwysol, diogel ac effeithiol a darparu'r rhain ar gyfer amrywiaeth o gyfranogwyr, gan ddefnyddio offer a dulliau priodol.
- Sicrhau bod y diwylliant a'r amgylchedd yn cael ei gynllunio i ddiwallu anghenion lles cyfranogwr a rhoi cyfle iddynt gyflawni eu nodau a'u dyheadau.
- Sicrhau bod sesiynau gweithgareddau wedi'u hyfforddi yn cydymffurfio â safonau technegol y Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol a Chyngor Chwaraeon Cymru.
- Cynorthwyo'r uwch-hyfforddwr i ymdrin â sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel gan hyrwyddo profiad cadarnhaol i ddefnyddwyr yn enwedig lle ceir grwpiau mawr neu'r rhai ag anghenion ychwanegol.
- Darparu gwerthusiadau o raglenni gweithgareddau a monitro data cyfranogi.
- Darparu hyfforddi a chyfarwyddyd ar safon lefel 2 UKCC (neu gyfwerth) neu uwch gan gynnwys paratoi, darparu ac adolygu'r gweithgareddau.
- Cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau datblygu er mwyn cynnal eich datblygiad proffesiynol eich hun neu i wella eich gallu i gwblhau eich gwaith yn ddigonol
- Cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau hyfforddi a datblygu er mwyn cynnal eich datblygiad proffesiynol eich hun, neu i wella eich gallu i gwblhau eich swydd yn ddigonol.

## DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL

**Iechyd a Diogelwch**
Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch

**Cyfle Cyfartal**
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion ac Ansawdd neu'r Tîm IAA a Diogelu.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

## GWIRIAD COFNODION TROSEDDOL

Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

# Manyleb y Person

## Hyfforddwr

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol (Ydy)

| Pridoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • Cymhwyster cyfarwyddyd neu hyfforddi sylfaenol ar Lefel 1 UKCC neu Lefel 2 UKCC neu gyfwerth ym maes hyfforddi. | Ydy | Cyflwyno tystysgrifau cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| | • Dyfarniadau corff llywodraethu cenedlaethol mewn amrywiaeth o weithgareddau neu chwaraeon. | | |
| | • Dyfarniad cymorth cyntaf. | Ydy | |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Hanes blaenorol o ddefnyddio cymwysterau hyfforddi i ddatblygu plant a phobl ifanc a/neu oedolion. | Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, geirda a'r broses ddethol. |
| | • Profiad o weithio ar lefel gymunedol a / neu lefel ragarweiniol. | Ydy | |
| | • Gwybodaeth am lwybrau datblygu. | Ydy | |
| | • Profiad mewn amgylchedd perthnasol e.e. datblygu chwaraeon, gwaith ieuenctid. | Ydy | |

| Pridoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Gallu datblygu perthnasoedd â chyfranogwyr drwy sgiliau cyfathrebu gwych, gwybodaeth dechnegol a gweithredu ar adborth er mwyn gwella profiad y cyfranogwr.<br><br>• Ymrwymiad a dibynadwyedd<br><br>• Gallu gweithio fel rhan o dîm<br><br>• Trefnu eich tasgau gwaith eich hun ochr yn ochr â chydweithwyr er mwyn sicrhau amgylchedd dysgu cadarnhaol, diogel a chynhwysol.<br><br>• Dangos y gallu i gyflawni asesiadau risg dynamig. | Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, geirda a'r broses ddethol. |
| | • Gallu gweithio o fewn ffiniau proffesiynol gan ddefnyddio sgiliau fel: goruchwyliaeth briodol o gynorthwywyr hyfforddi, datrys problemau, rheoli amser, dehongli gwybodaeth a defnyddio eich menter eich hun. | Ydy | |
| | • Trwydded yrru lawn/neu'n gallu gweithio mewn lleoliadau amrywiol.<br><br>• Gallu datblygu perthnasoedd â chyfranogwyr drwy sgiliau cyfathrebu gwych, | Ydy | |

| Pridoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| | gwybodaeth dechnegol a gweithredu ar adborth er mwyn gwella profiad y cyfranogwr.<br>• Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | | |